

# DYDDIADUR 2017 ESGOBAETH BANGOR THE DIOCESE OF BANGOR 2017 DIARY



**Esgobaeth  
Bangor**  
The Diocese  
of Bangor

Yr Eglwys yng Nghymru  
The Church in Wales

# CALENDR GWEDDIAU

## PRAYER CALENDAR

Wrth ddilyn **Llwybr Deiniol**, cawn ein hannog i weddio ar batrwm wythnosol dros anghenion ein cymunedau a’n byd. As we follow **St Deiniol’s Way**, we are encouraged to pray in a weekly pattern for the needs of our community and world.

**POB DYDD / DAILY**

Gweddiwn dros anghenion ein heglwys, y byd a’r gymuned leol; dros bawb sy’n wael ac yn agos at angau; a chan gofio’r sawl fu farw a’r rhai sy’n eu caru ac yn galaru ar eu holau.

We bring before God the needs within our church, the world and the local community; pray for those who are ill and those close to death; remember those who have died and those who loved and mourn them.

**AR DDYDD SUL / ON SUNDAY**

Cofiw’n yn arbennig yn ein gweddïau yr Eglwys ym mhob cwr o’r byd, gan gynnwys eglwysi a phobl yr esgobaeth hon a’r Ardal Weinidogaeth leol.

Today in particular, we hold in prayer the Church worldwide, as well as the churches and people of this diocese and the Ministry Area.

**AR DDYDD LLUN / ON MONDAY**

Cofiw’n yn arbennig yn ein gweddïau fannau gwaith yr ardal leol a’r bobl sy’n gweithio yno; a’r ysgolion a mannau dysg, athrawon, disgyblion a myfyrwyr.

Today in particular, hold in prayer the workplaces in our local communities and those who work in them, as well as places of education, teachers and students.

**AR DDYDD MAWRTH / ON TUESDAY**

Gweddiwn yn arbennig dros bob man yn y byd sydd angen iachd, heddwch, cyfiawnder a chyraddoldeb, a thros rannu’n gyfartal adnoddau’r ddaear.

Today in particular, we pray for all the places in the world that are in need of healing and peace, justice and equality; and for a true sharing of the earth’s resources.

**AR DDYDD MERCHER / ON WEDNESDAY**

Gweddiwn yn arbennig dros y rhai sy’n cael eu herlid am eu ffydd, y rhai sy’n ofni sôn wrth eraill am gariad Duw, a thros y sawl sy’n dysgu ac yn pregethu’r ffydd Gristnogol.

Today in particular, we pray for those who are persecuted for their faith, those who are afraid to speak about the love of God to others, and all who teach and preach.

**POB IAU / ON THURSDAY**

Gweddiwn yn arbennig dros ein cymdogion, teuluoedd, cyfeillion, cydweithwyr, a’r rheiny sydd ymhell o gartref.

Today in particular, we hold in prayer our neighbours, families, friends and colleagues, and all who are far from home.

**AR DDYDD GWENER / ON FRIDAY**

Gweddiwn dros bawb sy’n gofalu am eraill, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, pobl sy’n gweithio mewn canolfannau hamdden, a’r rhai sy’n gofalu am gefn gwlad.

Today in particular, we hold in prayer all carers, professional health care workers, people who work in leisure centres, and those who look after our countryside.

**AR DDYDD SADWRN / ON SATURDAY**

Gweddiwn yn arbennig dros y rhai sy’n gweithio ar benwythnosau, a’r rhai sy’n paratoi am wasanaethau’r Sul.

Today in particular, we pray for those who work at the weekend, and those preparing for Sunday services.

Ceir yma galendr ar gyfer blwyddyn yr Eglwys, sy’n nodi ffocws wythnosol ar gyfer ein gweddïau, sy’n deillio o’n bywyd ar y cyd fel esgobaeth. This calendar for the Church year offers a weekly focus for our prayers, emerging from our common life as a diocese.

**SUL CYNTAF YR ADFENT / THE FIRST SUNDAY OF ADVENT**  
27 Tachwedd / November 2016

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Ogwen / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Ogwen Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Santes Llechid, un o nawddseintiau’r Fro, ar 2 Rhagfyr / St Llechid’s Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 2 December*

Dduw tragwyddol, fe wyddai dy forwyn Llechid am dy nerth a d’amddiffyn drwy rwmiau teulu ac yng ngofal brawd a chwaer: tro ein calonnau carreg yn noddfa sy’n curo â chariad dros gyfaill a dieithryn, a’n heneidiau yn ffynhonnau sy’n arllwys cymwynasgarwch ac iachâd dros gymydog a gelyn; trwy Iesu o Nasareth, ein Harglwydd, brawd a ffrind, sy’n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a’r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Eternal God, your servant Llechid knew your strength and protection in the bonds of family and in the care of brother and sister: turn our hearts of stone into sanctuaries that beat with love for friend and stranger, and our souls into wells that pour forth charity and healing for enemy and neighbour; through Jesus of Nazareth, our Lord, brother and friend, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

**AIL SUL YR ADFENT / THE SECOND SUNDAY OF ADVENT**  
4 Rhagfyr / December 2016

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Peris / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Peris Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Peris Sant ar 11 Rhagfyr / St Peris’s Day is celebrated on 11 December*

Ffynhonnell pob daioni, yfodd dy was Peris yn ddwfn o ddyfroedd gweddi ac o nentydd myfyrdod sanctaidd: cadwa ni’n driw i’r gras a’n glanhaodd yn nyfroedd Bedydd, a thywallt dy drugaredd parhaus arnon ni ym mannau llonydd ein calonnau; fel y gallwn ddatgan, trwy’r maeth hwnnw, dy faddeuant, dy iachâd a’th lawnder trwy’r byd i gyd; trwy Grist, dy Anwylaf Un, sy’n fyw ac sy’n terynasu gyda thi a’r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Source of all goodness, your servant Peris drank deep from the waters of prayer and the streams of holy contemplation: keep us true to the grace that cleansed us in the waters of Baptism, and pour your continual mercy upon us in the silent places of our hearts; that so nourished we may proclaim your forgiveness, healing and wholeness in all the world; through Christ, your Beloved One, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

**TRYDYDD SUL YR ADFENT / THE THIRD SUNDAY OF ADVENT**  
11 Rhagfyr / December 2016

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Cyfeiliog a Mawddwy / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Cyfeiliog a Mawddwy Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Tydecho Sant, un o nawddseintiau’r Fro, ar 17 Rhagfyr / St Tydecho’s Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 17 December*

O Dduw tra thrugarog, y bu i’th was Tydecho amddiffyn y rhai isel a darostyngedig, gan bregethu cyfiawnder a gwirionedd ger bron y nerthol ar eu gorseddau: boed i ninnau, trwy ei esiampl, lefaru geiriau iachâd i’n hoes newynog ni, hyd nes gwasgaru balchder ein calonnau a chyflawni addewid dy drugaredd yn dragywydd; trwy Grist, ein Brenin tlawd, sy’n fyw ac sy’n terynasu gyda thi a’r Ysbryd Glân, un Duw, heddiw ac am byth. Amen.

Most merciful God, whose servant Tydecho defended the humble and lowly, and preached justice and truth to the mighty on their thrones: grant that we, following his example, may speak your words of healing and wholeness to our hungry age, until the pride in our hearts is scattered and your promise mercy is know in all generations; through Christ, our servant King, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

**PEDWERYDD SUL YR ADFENT / THE FOURTH SUNDAY OF ADVENT**  
18 Rhagfyr / December 2016

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros bawb sy’n dirnad galwedigaeth i weinidogaeth ordeiniedig neu leyg o fewn yr Eglwys, a thros gynnydd parhaus yn y rhai sy’n rhannu yng ngweinidogaeth Duw / This week we pray for all who are discerning a call to ordained or lay ministry in the Church, and for a continuing increase in the number of those sharing in God ministry

**DYDD NADOLIG / CHRISTMAS DAY**  
25 Rhagfyr / December 2016

**AIL SUL Y NADOLIG / THE SECOND SUNDAY OF CHRISTMAS**  
1 Ionawr / January 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros weinidogaeth Esgob Bangor / This week we pray for the ministry of the Bishop of Bangor



YR YSTWYLL /  
THE EPIPHANY OF OUR LORD  
8 Ionawr / January 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros ein Ysgolion Eglwys, eu penaethiaid, athrawon, cynorthwywyr dysgu, staff cefnogi a disgyblion; a thros ein gweinidogaeth ni ymysg plant, pobl ifanc a theuluoedd / This week we pray for our Church Schools, their heads, teachers, teaching assistants, support staff and pupils; and for our ministry with children, young people and families

AIL SUL YR YSTWYLL /  
THE SECOND SUNDAY OF EPIPHANY  
15 Ionawr / January 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros Esgobaeth Mith a Chil Dara, ein esgobaeth gyswilt yn Eglwys Iwerddon, dros Esgob Pat, a holl bobl Dduw yno / This week we pray for the Diocese of Meath & Kildare, our link diocese in the Church of Ireland, for Bishop Pat, and all God's people there

TRYDYDD SUL YR YSTWYLL /  
THE THIRD SUNDAY OF EPIPHANY  
22 Ionawr / January 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Dwynwen / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Dwynwen Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Santes Dwynwen ar 25 Ionawr*  
*St Dwynwen's Day is celebrated on 25 January*

Dduw, a'n carodd ninnau'n gyntaf: gad i ni, wrth ddilyn esiampl dy forwyn Dwynwen, ddod i wybod, trwy'r amserau da a'r drwg, am y cysur, y gwmnïaeth a'r llawnder a fwriedaist i dy holl bobl eu derbyn; trwy Iesu Grist, dy Fab a'n Harglwydd, a'n carodd hyd y diwedd, ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

God, who loved us first: grant that we, following the example of your servant Dwynwen, may, in good times and in bad, know the comfort, companionship and wholeness that you intend for all your people; through Jesus Christ, you Son our Lord, who loved us to the end, and is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

PEDWERYDD SUL YR YSTWYLL /  
THE FOURTH SUNDAY OF EPIPHANY  
29 Ionawr / January 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Seiriol / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Seiriol Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Seiriol Sant ar 3 Chwefror*  
*St Seiriol's Day is celebrated on 3 February*

Hollalluog Dduw, trwy dy ras taniwyd Seiriol â fflam sanctaidd dy gariad a daeth yn oleuni i losgi'n llachar yn dy Eglwys: cynnau ynom ninnau yr un ysbryd o ddisgyblaeth a chariad, fel y cerddom o'th flaen fel plant y goleuni; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Almighty God, by whose grace Seiriol, kindled with the holy fire of your love, became a burning and a shining light in the Church: inflame in us the same spirit of discipline and love, that we may walk before you as children of the light; through Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

GŴYL CYFLWYNO CRIST YN Y DEML /  
GŴYL FAIR Y CANHWYLLAU / THE  
PRESENTATION OF CHRIST IN THE  
TEMPLE / CANDLEMAS  
5 Chwefror / February 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros ein brodyr a'n chwiorydd Iddewig, a thros dwf mewn dealltwriaeth a chariad rhwng pobl o wahanol ffydd / This week we pray for our brothers and sisters of the Jewish faith, and for greater understanding and love between people of different faiths

TRYDYDD SUL CYN Y GRAWYS /  
THE THIRD SUNDAY BEFORE LENT  
12 Chwefror / February 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros weinidogaeth Coleg Cyfarwyddwyr Ysbrydol yr Esgobaeth, a thros bawb sy'n arwain eraill i ddealltwriaeth ddyfnach o alwad Duw ar eu bywyd / This week we pray for the ministry of the Diocesan College of Spiritual Directors, and for all who guide others into a deeper understanding of God's call on their life

AIL SUL CYN Y GRAWYS /  
THE SECOND SUNDAY BEFORE LENT  
19 Chwefror / February 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros weinidogaeth ein Galluoogyddion Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theoluoedd (ein CYFMEs), a'n gweinidogaeth oll i groesawu teuluoedd a rhannu gobaith ein ffydd â chenhedlaeth newydd / This week we pray for the ministry of our Children, Youth and Family Ministry Enablers (our CYFMEs), and for our shared ministry of welcoming families and sharing the hope of our faith with a new generation

SUL O FLAEN Y GRAWYS /  
THE SUNDAY BEFORE LENT  
26 Chwefror / February 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros weinidogaeth Archesgob Caergaint a thros genhadaeth y Gymundeb Anglicanaidd / This week we pray for the ministry of the Archbishop of Canterbury and for the mission of the Anglican Communion

SUL CYNTAF Y GRAWYS /  
THE FIRST SUNDAY OF LENT  
5 Mawrth / March 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros genhadaeth a thystiolaeth y mudiad Masnach Deg, a thros bawb sy'n ceisio cyfundrefn decach i rannu adnoddau ein byd / This week we pray for the mission and witness of the Fairtrade movement, and for all who work to achieve a fairer distribution of the world's resources

AIL SUL Y GRAWYS /  
THE SECOND SUNDAY OF LENT  
12 Mawrth / March 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Padrig / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Padrig Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Padrig Sant ar 17 Mawrth*  
*St Patrick's Day is celebrated on 17 March*

Hollalluog Dduw, yn dy ragluniaeth dewisaist dy was Padrig i fod yn apostol i bobl Iwerddon, i fedyddio'r rhai oedd yn crwydro mewn tywyllwch ac ar gyfeillion a'u dwyn at y gwir oleuni a gwybodaeth o'th air: cadw ni yn y goleuni hwnnw a dwg ni i'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant. Amen.

Almighty God, in your providence you chose your servant Patrick to be the apostle of the Irish people, to baptize those who were wandering in darkness and error and to bring them to the true light and knowledge of your word: keep us in that light and bring us to everlasting life; through Jesus Christ our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. Amen.

TRYDYDD SUL Y GRAWYS /  
THE THIRD SUNDAY OF LENT  
19 Mawrth / March 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros waith Cyngor yr Esgobaeth, Pwyllgorau Eiddo'r Esgobaeth a Phwyllgor Cyllid yr Esgobaeth, a thros weinidogaeth eu haelodau a'u swyddogion / This week we pray for the work of the Diocesan Council, the Diocesan Property Committees, and the Diocesan Finance Committee, and the ministry of their members and officers

PEDWERYDD SUL Y GRAWYS / SUL Y  
FAM / THE FOURTH SUNDAY OF LENT /  
MOTHERING SUNDAY  
26 Mawrth / March 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros bawb sy'n gwasanaethu'n heglwysi a'n Hardaloedd Gweinidogaeth fel Wardeniaid, Trysoryddion, aelodau o Gynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth, swydd-ddeiliaid a gwirfoddolwyr, gan roi diolch am eu gweinidogaeth, eu gwaith a'u harweiniad / This week we pray for all who serve our churches and Ministry Areas as Wardens, Treasurers, Ministry Area Council members, office-holders and volunteers, giving thanks for their ministry, their witness and their leadership

SUL Y DIODDEFAINT /  
PASSION SUNDAY  
2 Ebrill / April 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Madryn / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Madryn Ministry Area.

*Dethlir Gŵyl Santes Madryn ar 9 Ebrill*  
*St Madryn's Day is celebrated on 9 April*

Dduw tragwyddol, y bu i'th unig Fab wybod beth oedd gwir gariad tyner mam a thad, fe alwaist dy forwyn Madryn i ofalu am ei theulu ac i feithrin ei phlant yng ngwybodaeth a chariad dy ffyrdd: adeilada deulu'r Eglwys ac aelwyd y ffydd mewn gras a gobaith, fel y daw pob cenhedlaeth i ddirnad dyfnder dy ffyddlondeb diddiwedd; trwy'r un Iesu Grist, ein brawd a'n ffrind, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Eternal God, whose only Son knew the tender love of mother and father, you called your servant Madryn to care for her family and to teach her children the knowledge and love of your ways: build up the family of the Church and the household of faith in grace and hope, that all generations may know your deep and unending faithfulness; through the same Jesus Christ, our brother and friend, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

SUL Y BLODAU / PALM SUNDAY  
9 Ebrill / April 2017

DYDD Y PASG / EASTER DAY  
16 Ebrill / April 2017

AIL SUL Y PASG /  
THE SECOND SUNDAY OF EASTER  
23 Ebrill / April 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Beuno Sant Uwch Gwyrfai / This week we pray for the life, mission and witness of the Beuno Sant Uwch Gwyrfai Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Beuno Sant ar 20 Ebrill*  
*St Beuno's Day, is celebrated on 20 April*

Dduw hollalluog, a adewiaist gynifer o olion dy ddaioni ar y wlad hon trwy fywyd a gweinidogaeth Beuno: caniatâ y cawn ninnau sy'n rhannu ei famwlad ar y ddaear breswyllo gydag ef yn y drigfan nefol honno yr wyt ti yn dy ddaioni wedi ei pharatoi ar gyfer y rhai sydd yn dy garu di; er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn trwy rym yr Ysbryd a gyfodaist i fywyd gyda thi, ei Dduw a'i Dad, byth bythoedd. Amen.

Almighty God, you have left so many traces of your goodness in this land through the life and ministry of Beuno: grant that we who share his homeland on earth may dwell with him in that everlasting mansion which you in your goodness have prepared for those who love you; for the sake of Jesus Christ our Lord, whom by the power of the Spirit you raised to live with you, his God and Father, for ever and ever. Amen.

TRYDYDD SUL Y PASG /  
THE THIRD SUNDAY OF EASTER  
30 Ebrill / April 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Cybi / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Cybi Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Cybi Sant ar 5 Tachwedd, ond bu hefyd iddi ei dathlu ar 6 Mai / St Cybi's Day is celebrated on 5 November, but was also sometime celebrated on 6 May*

Dduw pob cyfnod a lle, a ysbrydolaist dy was Cybi i adael ei bobl a thŷ ei dad ac, fel Abraham, i chwilio amdanat wrth grwydro: caniatâ i ni, pan ddaw ein pererindod ddaearol i ben ganfod, fel hwythau, breswylfa dragwyddol lle, gyda dy Fab a'th Ysbryd Glân yr wyt ti'n byw ac yn teyrnasu, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

God of all times and places, who inspired your servant Cybi to leave his people and his father's house and, like Abraham, to seek you in his wanderings: grant that when our earthly pilgrimage is over we may, like them, find an eternal dwelling place where, with your Son and Holy Spirit you live and reign, one God, now and for ever. Amen.

PEDWERYDD SUL Y PASG /  
THE FOURTH SUNDAY OF EASTER  
7 Mai / May 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros bawb sy'n arddel gweinidogaeth drwyddedig neu gomisiynedig o fewn yr Eglwys, gan gynnwys Darllenwyr, timau gofal bugeiliol a thimau Agor y Llyfr, gan ddiolch am eu doniau a'u hymroddiad / This week we pray for all who exercise a licensed or commissioned ministry in the Church, including Readers, pastoral care teams and Open the Book teams, giving thanks for their gifts and commitment

PUMED SUL Y PASG /  
THE FIFTH SUNDAY OF EASTER  
14 Mai / May 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros genhadaeth a thystiolaeth Cymorth Cristnogol / This week we pray for the mission and witness of Christian Aid

CHWECHED SUL Y PASG /  
THE SIXTH SUNDAY OF EASTER  
21 Mai / May 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros weinidogaeth y Deon a'r Archddiaconiaid / This week we pray for the ministry of the Dean and the Archdeacons

Y DYRCHAFael /  
THE ASCENSION OF OUR LORD  
28 Mai / May 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Cwyfan / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Cwyfan Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Cwyfan Sant ar 2 Mehefin*  
*St Cwyfan's Day is celebrated on 2 June*

O Dad amser a thragwyddoldeb, y bu i'th was Cwyfan dy geisio di mewn unigrwydd gan ddal y greadigaeth gyfan i fyny o dy flaen mewn gweddi: arwain ni i'r wybyddiaeth nad ynysoedd ydyn ni, yn gyflawn ynon ni'n hunain, ond yn hytrach rhan o gorff yr Eglwys a chymundeb y saint, yn un â'r hwn a gasglodd ynghyd, ar y Groes, bopeth ato'i hun, hyd yn oed Iesu Grist dy Fab, ein Harglwydd, sy'n fyw ac sy'n teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn awr ac am byth. Amen.

Father of time and eternity, whose servant Cwyfan sought you in solitude and held before you in prayer the whole of creation: lead us to the knowledge that we are not islands, entire of ourselves, but part of the body of the Church and the communion saints, at one with him who on the Cross gathered all things to himself, even Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

DYDD Y PENTECOST / SULGWYN / THE DAY OF PENTECOST / WHITSUN 4 Mehefin / June 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Enlli / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Enlli Ministry Area

Dethlir Gŵyl Pedrog Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 4 Mehefin / St Pedrog's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 4 June

Dduw Hollalluog, yr ymddiriedodd dy was Pedrog ei ddysg, trwy gryfder ffydd, i lwybrau'r tonau, gan ddod â sêl Gristnogol a defosiwn duwiol, megis gwin newydd, i lannau gwyrddlas: rho inni ddeall ohonot cyn ddyfned â'n parodrwydd i fentro allan yn dy enw, a gwna'n hymdrechion ninnau'n selog am grwyn gwin newydd ein dyddiau ni; fel yn y diwedd y dygir yr holl greadigaeth ynghyd mewn cariad wrth fyrrddau gwledd nefol y Duw sy'n dri yn un, yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân, yr un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Almighty God, whose servant Pedrog, fortified by grace, entrusted his great learning to the routes of the waves, and brought to verdant shores the new wine of Christian zeal and godly devotion: grant that our knowledge of you may be only as great as our willingness to venture forth in your name, and our endeavors ever zealous for the new wineskins of our present age; that at the last the whole world may be gathered in love at the heavenly banquet of the triune God, Father, Son and Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

SUL Y DRINDOD / TRINITY SUNDAY 11 Mehefin / June 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Darpar Ardal Weinidogaeth Bro Tudno / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Tudno Ministry Area Designate

Dethlir Gŵyl Tudno Sant ar 5 Mehefin St Tudno's Day is celebrated on 5 June

Dduw'r gwirionedd, y bu i dy was Tudno finiogi cleddyf y ffydd ar faen hogi astudiaeth a gweddi: rho i'th Eglwys gariad tuag at ddysg a chalon dros ddysgeidiaeth Crist, fel y gall dy bobl, wrth geisio lloches rhag moroedd amheuaeth a dyfroedd bas anwybodaeth, ganfod noddfa sicr yn nyfnion gwybodaeth dy ddoethineb; trwy'r un Crist dy Fab a'n Harglwydd, sy'n fyw ac sy'n terynasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw, heddiw ac am byth. Amen.

God of truth, whose servant Tudno sharpened the sword of faith on the whetstone of study and prayer: give to your Church a love of learning and a heart for the teachings of Christ, so that, seeking refuge from the sea of doubt and the shallow waters of ignorance, your people may find a sure refuge in the deep knowledge of your wisdom; through the same Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

DIOLCHGARWCH AM Y CYMUN BENDIGAID / THANKSGIVING FOR THE HOLY COMMUNION 18 Mehefin / June 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Gwydyr Ministry Area

Dethlir Gŵyl Rhychwyn Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 12 Mehefin / St Rhychwyn's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 12 June

Dduw pob amser a phob lle, y bu i'th weision Celynnin a Rhychwyn dy geisio mewn coedlan a llannerch, a chael yno'r sicrwydd fod Crist iddynt hefyd, trwy ras, yn frawd: arwain ninnau i ddeall ein bod yn blant i ti, yn etifeddion bywyd tragwyddol, ac mai offrw m syml ein ffydd, cyn wyrdded â deilen, ydy'r unig ddiolchgarwch rwyf yn ei geisio; trwy'r un Iesu Grist, ein Harglwydd, brawd a ffrind, sy'n fyw ac sy'n terynasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

God of all times and places, your servants Celynnin and Rhychwyn sought you in forest and glade, and found there the assurance that Christ was by grace their brother also: lead us to the knowledge that we are your children, heirs of eternal life, and that the simple offering of our faith, green as a leaf, is all the gratefulness that you seek; through the same Jesus Christ, our Lord, brother and friend, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

Y TRYDYDD SUL WEDI'R PENTECOST / THE THIRD SUNDAY AFTER PENTECOST 25 Mehefin / June 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Moelwyn / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Moelwyn Ministry Area

Dethlir Gŵyl Twrog Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 27 Mehefin / St Twrog's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 27 June

Hollalluog Dduw, y naddwyd dy was Twrog o graig Crist i ddiogelu d'Eglwys rhag stormydd anghrediniaeth ac erledigaeth: adeilada ni fel meini bywiol i ffurfio'r fath deml ysbrydol y bydd ei muriau'n cyhoeddi byth bythoedd dy ffyrdd gogoneddus a rhyfeddol; trwy Grist y gwir Gonglfaen, sy'n fyw ac sy'n terynasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw, heddiw ac am byth. Amen.

Almighty God, whose servant Twrog was hewn from the rock of Christ to guard your Church from the storms of unbelief and persecution: build us up as living stones formed into one spiritual temple, whose walls ever proclaim you glorious and marvellous ways; through Christ the true Cornerstone, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

Y PEDWERYDD SUL WEDI'R PENTECOST / THE FOURTH SUNDAY AFTER PENTECOST 2 Gorffennaf / July 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Darpar Ardal Weinidogaeth Bro Pablig / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Pablig Ministry Area Designate

Dethlir Gŵyl Pablig Sant ar 4 Gorffennaf St Pablig's Day is celebrated on 4 July

Hollalluog a bythfywiol Dduw, a elwaist Pablig i gyhoeddi'r Efengyl i'r genedl hon: dyro i ninnau, dy weision, y fath ffydd a grym cariad, fel y cawn elwa ar ei esiampl wrth i ni ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y byddo'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn awr ac am byth. Amen.

Almighty and everliving God, who called Pablig to proclaim the Gospel to this nation: give us, your servants, such faith and power of love, that, as we rejoice in his triumph, we may profit by his example; through Jesus Christ our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. Amen.

Y PUMED SUL WEDI'R PENTECOST / THE FIFTH SUNDAY AFTER PENTECOST 9 Gorffennaf / July 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Cymer / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Cymer Ministry Area

Dethlir Gŵyl Illtud Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 7 Gorffennaf / St Illtud's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 7 July

Fendigaid Arglwydd, ffynhonnell pob doethineb, drwy dy ras y rhagorodd dy was Illtud mewn gwybodaeth a dysg, yn ddynol a dwyfol; caniatâ i ni beidio â cheisio byw wrth fara'n unig ond wrth y Gair hwnnw a ddaw o'th enau, Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, y bydded iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. Amen.

Blessed Lord, the source of all wisdom, by whose grace your servant Illtud excelled in knowledge and learning, both human and divine: grant that we may never seek to live by bread alone but by that Word who comes forth from you, Jesus Christ your Son our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. Amen.

Y CHWCHED SUL WEDI'R PENTECOST / THE SIXTH SUNDAY AFTER PENTECOST 16 Gorffennaf / July 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Tysilio / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Tysilio Ministry Area

Dethlir Gŵyl Tysilio Sant ar 12 Tachwedd, ond ceir dathliadau lleol yn ei eglwys tua'r adeg hon o'r flwyddyn / St Tysilio's Day is celebrated on 12 November, but local celebrations at his church also take place at around this time.

Dad pawb oll, a elwaist Tysilio i ffoi o dŷ ei dad ac i fyw mewn unigedd ar ynysoedd anghysbell y gorllewin pell: caniatâ i ni, gan ddilyn ei esiampl, fod yn barod i roi heibio popeth a'n rhwystra rhag dilyn llwybr dy Fab, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. Amen.

Father of all, who called Tysilio to flee his father's house and to dwell in solitude in the isles of the western sea: grant that we, following his example, may be prepared to give up all that would hinder us from following in the footsteps of your Son, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. Amen.

Y SEITHFED SUL WEDI'R PENTECOST / THE SEVENTH SUNDAY AFTER PENTECOST 23 Gorffennaf / July 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros Esgobaeth Lango ac Esgobaeth Gorllewin Lango, ein esgobaethau cyswllt yn Eglwys Uganda, tros Esgob Charles Odurkami ac Esgob Alfred Acur Okodi, a thros holl bobl Dduw yno / This week we pray for the Diocese of Lango and the Diocese of West Lango, our link dioceses in the Church of Uganda, for Bishop Charles Odurkami and Bishop Alfred Acur Okodi, and all God's people there

YR WYTHFED SUL WEDI'R PENTECOST / THE EIGHTH SUNDAY AFTER PENTECOST 30 Gorffennaf / July 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Eifionydd / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Eifionydd Ministry Area

Dethlir Gŵyl Garmon Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 3 Awst / St Germanus's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 3 August

Ffynhonnell pob daioni, trwy dy ddawn y cyhoeddodd Garmon dy was frenhiniaeth dy ras ym Mhrydain: caniatâ i'th bobl dderbyn bob amser ffrwythau dy haelioni yn ddiolchgar nes yn y diwedd y canwn gydag ef a'r holl saint alelwia fawr y nef; lle gyda'th Fab a'r Ysbryd Glân yr wyt ti yn byw ac yn teyrnasu yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Source of all goodness, by whose gift your servant Germanus proclaimed in Britain the sovereignty of your grace: grant that your people may ever thankfully receive the fruits of your generosity until at last we sing with him and all the saints the great alleluia of heaven; where with your Son and Spirit you live and reign one God, now and for ever. Amen.

GWEDDNEWIDIAD EIN HARGLWYDD / THE TRANSFIGURATION OF OUR LORD 6 Awst / August 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros genhadaeth a thystiolaeth Undeb y Mamau, gan gynnwys gwaith a thystiolaeth holl ganghenau'r esgobaeth, a holl waith y mudiad ym Mhrydain a thramor / This week we pray for the mission and witness of the Mothers' Union, including the work and witness of our diocesan branches, and all the movement's work in Britain and overseas

Caiff Mary Sumner, sylfaenydd Undeb y Mamau, ei choffau ar 9 Awst / Mary Sumner, founder of the Mothers' Union, is commemorated on 9 August

MAIR, MAM EIN HARGLWYDD / MARY, MOTHER OF OUR LORD 13 Awst / August 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Dwylian / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Dwylian Ministry Area

Dethlir Gŵyl Santes Gwynin, un o nawddseintiau'r Fro, ar 16 Awst / St Gwynin's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 16 August

Arglwydd Iesu Gris, fe wyddai dy forwyn Gwynin am dy nerth achubol, gan gerdded dy ffordd di o sancteiddrwydd a cheisio cariad mwyfwy perffaith: caniatâ i ninnau adnabod, gyda Gwynin a Mair dy fam, y gras a roddir mor rhwydd, a'r gobaith sy'n ein galw adref; trwy'r un Crist, sy'n fyw ac sy'n teyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Lord Jesus Christ, your servant Gwynin knew your saving power and walked your way of holiness seeking a yet more perfect love: grant that we may know, with Gwynin and Mary your mother, the grace that is freely given and the hope that calls us home; through the same Christ, who is alive and reigns with the Father and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

YR UNFED SUL AR DDEG WEDI'R PENTECOST / THE ELEVENTH SUNDAY AFTER PENTECOST 20 Awst / August 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros ein brodyr a'n chwiorydd sy'n arddel crefydd Islam, a thros dwf mewn dealltwriaeth a chariad rhwng pobl o wahanol ffydd / This week we pray for our brothers and sisters who follow the religion of Islam, and for greater understanding and love between people of different faiths



**Y DEUDDEGFED SUL WEDI'R PENTECOST / THE TWELFTH SUNDAY AFTER PENTECOST**  
27 Awst / August 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros waith Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru a Chorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, tros ein cynrychiolwyr esgobaethol ar y cyrff rhain, a thros weinidogaeth eu swyddogion / This week we pray for the work of the Governing Body of the Church in Wales and the Representative Body of the Church in Wales, for our diocesan representatives on these bodies, and for the ministry of their officers

**Y TRYDYDD SUL AR DDEG WEDI'R PENTECOST / THE THIRTEENTH SUNDAY AFTER PENTECOST**  
3 Medi / September 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Ardal Weinidogaeth Bro Arwystli / This week we pray for the life, mission and witness of the Bro Arwystli Ministry Area

*Dethlir Gŵyl Idloes Sant, un o nawddseintiau'r Fro, ar 6 Medi / St Idloes's Day, one of the patron saints of the Area, is celebrated on 6 September*

Arglwydd Iesu, bu dy was Idloes yn byw'n addfwyn a thyner, gan hawlio dim iddo'i hun: boed i ninnau, wrth ddilyn ei esiampl, weithredu'n gyfiawn, gan garu trugaredd a cherdded yn ostyngedig yn dy ffordd, hyd nes cawn, trwy ras, etifeddu rhyddid tragwyddol, yn un â thi yng ngogoniant y Tad a'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac am byth. Amen.

Lord Jesus, whose servant Idloes lived meekly and gently, claiming nothing for himself: grant that we, following his example, may act justly, love mercy and walk humbly in your way, until by grace we inherit eternal liberty, at one with you in the glory of the Father and the Holy Spirit, one God, now and for ever. Amen.

**DEINIOL SANT / SAINT DEINIOL**  
10 Medi / September 2017

Yr wythnos hon, fe weddiwn dros fywyd, cenhadaeth a thystiolaeth Cadeirlan Bangor ac Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol / This week we pray for the life, mission and witness of Bangor Cathedral and the Bro Deiniol Ministry Area

